CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Mawrth 2022

Cylchlythyr Mawrth 2022 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ar yr ystadegau diweddaraf am boblogaeth, mudo, cartrefi a'r Gymraeg.

Cyhoeddwyd gyntaf: 7 Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 7 Mawrth 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynnwys


Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2020

Cyfrifiad 2021

Diweddariad ar ansicrwydd amcangyfrifon poblogaeth

Diweddariad ar drawsnewid ystadegau’r boblogaeth

Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl grŵp ethnig a chrefydd

Ystadegau Mudo a’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr StatsCymru

Ystadegau’r Gymraeg

Cyswllt


## Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2020

Ar 12 Ionawr, cyhoeddodd y **Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol dros dro sy’n seiliedig ar 2020** ar gyfer Cymru a gwledydd y DU.

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn destun ansicrwydd ac wedi’u seilio ar ragdybiaethau ynglŷn â thueddiadau’r dyfodol o safbwynt ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo. Hyd yma, nid yw effeithiau pandemig y coronafeirws


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(COVID-19) ar ymddygiadau demograffeg yn glir, ac mae hyn yn cyfrannu at ansicrwydd pellach.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym **mwletin (ONS)** a **dogfennau methodoleg (ONS)** y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cyhoeddi datganiad i hysbysu defnyddwyr o wall yn ymwneud ag allfudo rhyngwladol o Gymru. Mae'r ONS yn nodi bod effaith hyn yn gymharol fach ar amcanestyniadau Cymru, gyda'r amcanestyniadau poblogaeth oddeutu 2,700 yn is erbyn 2030 na'r hyn a gyhoeddir, ac oddeutu 16,400 yn is erbyn 2045. Yn dilyn ymgynghori â Llywodraeth Cymru, mae'r ONS wedi penderfynu peidio â chyhoeddi amcanestyniadau newydd. Am ragor o wybodaeth, ewch i **wefan yr ONS**.

## Prif bwyntiau

- Rhwng canol 2020 a chanol 2030, amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 2.6%, o 3.17 miliwn i 3.25 miliwn.
- Rhwng canol 2020 a chanol 2045, amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 4.2%, o 3.17 miliwn i 3.30 miliwn.
- Amcanestynnir y bydd poblogaeth y DU yn cynyddu 3.2% rhwng canol 2020 a chanol 2030, i 69.2 miliwn, gydag amcanestyniad y bydd y boblogaeth yn tyfu ym mhob un o'r pedair gwlad.

Mae **datganiad sy'n crynhoi data Cymru** wedi'i gyhoeddi, ochr yn ochr â'r data ar **StatsCymru**.

# Cyfrifiad 2021

Yn dilyn **ymgynghoriad diweddar yr ONS ar allbynnau Cyfrifiad 2021**, mae'r ONS wedi cyhoeddi **rhestr lawn o'r newidiadau arfaethedig i gam cyntaf y cynigion (ONS)** sy'n seiliedig ar adborth gan ymatebwyr. Ar hyn o bryd, maent yn gwerthuso'r ymatebion ynghylch y camau diweddarach o'u hamserlen datganiadau. Byddant yn mynd i'r afael â'r rhain yn rhan dau o'u hymateb i'r ymgynghoriad, a gyhoeddir ddechrau 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn y blog diweddaraf ynglŷn â **datblygu’r darlun cyfoethocaf o’n poblogaeth (ONS)**, cadarnhaodd yr ONS eu bod yn anelu at gyhoeddi’r datganiad cyntaf ynghylch amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru (a Lloegr) ddiwedd mis Mai. Byddant yn cadarnhau yr union ddyddiad unwaith y byddant wedi cwblhau eu gwaith prosesu a sicrhau ansawdd. Mae’r allbynnau arfaethedig a chynlluniau cyhoeddi’r dadansoddiadau ar gael ar **wefan yr ONS**.

Am y tro cyntaf, mae awdurdodau lleol wedi’u gwahodd i helpu â’r broses o sicrhau ansawdd amcangyfrifon dros dro y cyfrifiad, sydd wedi’i threfnu i’w chynnal ym mis Chwefror ac ym mis Mawrth. **Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â chynlluniau’r ONS ar gael**. Anogir pob awdurdod lleol yng Nghymru i gymryd rhan yn y broses hon.

Ar 6 Ionawr, cyhoeddwyd cofnodion o Gyfrifiad 1921 yng Nghymru (a Lloegr), ychydig dros 100 mlynedd ers cynnal y cyfrifiad. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar **wefan yr Archifau Gwladol**.

## Diweddariad ar ansicrwydd amcangyfrifon poblogaeth

Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd yr ONS ddiweddariad i’w **data ar fesurau o ansicrwydd amcangyfrifon poblogaeth (ONS)**, sy’n cynnwys manylion ar rai o’r newidiadau methodoleg yn ogystal â’r data ansicrwydd ar gyfer 2020. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y fethodoleg yn y **cyhoeddiad blaenorol (ONS)**.

O safbwynt y sefyllfa yng Nghymru, roedd y cyfwng ansicrwydd o 95% ar gyfer yr amcangyfrif poblogaeth yn 2020 yn +/- 3% o’r gwerth canolog, gyda thri awdurdod lleol â chyfyngau o dros +/- 5%. Ar gyfer 7 o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd yr amcangyfrif poblogaeth ar gyfer 2020 oddi allan i’r cyfwng ansicrwydd a gyfrifwyd.

## Diweddariad ar drawsnewid ystadegau’r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## boblogaeth

Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd yr ONS **ddiweddariad ar ei chynlluniau ar gyfer amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth (ONS)**. Cyhoeddwyd **blog (ONS)** ochr yn ochr â'r diweddariad sy'n trafod sut y bydd yr ONS yn sicrhau mewnwelediadau mwy cynhwysfawr ac amserol ynghylch y boblogaeth.

## Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl grŵp ethnig a chrefydd

Ar 16 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd yr ONS **ystadegau arbrofol (ONS)** ar **boblogaeth Cymru a Lloegr yn ôl grŵp ethnig a chrefydd (ONS)**.

Am ragor o wybodaeth, gweler yr adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb yn **niweddariad chwarterol ystadegau Cymru**.

## Ystadegau Mudo a'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Ar 10 Chwefror, cyhoeddodd y **Swyddfa Gartref ddiweddariad ar gyfanswm y ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'u canlyniadau**. Mae'r **ystadegau chwarterol** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 yn cynnwys **dadansoddiad manwl o ystadegau'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gyfer Cymru (Swyddfa Gartref)**.

Ar 31 Ionawr, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref **ganlyniadau arolwg ar ddeiliaid fisa Cenedlaethol Prydeinig (Tramor) Hong Kong sy'n byw yn y DU (Swyddfa Gartref)**. Mae'r data hyn ar gael ar lefel y DU.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr StatsCymru

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymchwil ynglŷn â sut y mae pobl yn defnyddio ein llwyfan data agored **StatsCymru**. Rydym yn awyddus i ganfod barn ystod eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl sy'n gweithio i gyrff cyhoeddus, y trydydd sector a thu hwnt. Efallai y bydd yr ymchwil defnyddwyr yn cael ei gwblhau gan gontractwr, a bydd y canlyniadau yn llywio cyfeiriad safle StatsCymru i'r dyfodol. Os ydych yn defnyddio StatsCymru, a buasech yn dymuno cymryd rhan yn yr ymchwil hwn, cysylltwch â ni.

# Ystadegau'r Gymraeg

Am wybodaeth ynghylch ystadegau'r Gymraeg, gweler **diweddariad chwarterol ystadegau Cymru**.

# Cyswllt


## Martin Parry

Rhif ffôn: 0300 025 0373

E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

## Cyfryngau

Rhif ffôn: 0300 025 8099



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Mawrth 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.